OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | 23 Mawrth *2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd digwyddiad ras 10K y Trallwng sy'n cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mawrth 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A458 Trunk Road (Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 March 2025* |
| *Coming into force* | *23 March 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A458 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited due to the Welshpool 10K Run event being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A458 Trunk Road (Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 2025 and this Order comes into force on 23 March 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"closure period" ("*y cyfnod cau*") means that period commencing at 05:00 hours on 23 March 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(**1**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(ii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos; neu

(iii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan swyddog awdurdodedig i gefnogi digwyddiad ras 10K y Trallwng ac am resymau diogelwch yn gysylltiedig â’r digwyddiad.

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 05:00 o’r gloch ar 23 Mawrth 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau.

### Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Mawrth 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(i) any vehicle being used by the emergency services;

(ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned; or

(iii) any vehicle being used by an authorised official in support of and for safety reasons in connection with the Welshpool 10K run event.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road.

### Prohibitions

**3.** No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the closure period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### Application

**5.** The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

**6.** The maximum duration of this Order is 1 day.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 13 March 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau a Beicwyr

1. Y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Broad Street a High Street sy'n ymestyn o gyffordd Broad Street â Berriew Street, Church Street a Severn Street hyd at gyffordd High Street â Jehu Road.

2. Y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Berriew Street a Berriew Road sy'n ymestyn o gyffordd Berriew Road â'r C2005 Red Lane hyd at gyffordd Berriew Street â Broad Street, Church Street a Severn Street.

## SCHEDULE

### Prohibition of Vehicles and Cyclists

1. The length of the A458 trunk road known as Broad Street and High Street that extends from the junction of Broad Street with Berriew Street, Church Street and Severn Street to the junction of High Street with Jehu Road.

2. The length of the A458 trunk road known as Berriew Street and Berriew Road that extends from the junction of Berriew Road with the C2005 Red Lane to the junction of Berriew Street with Broad Street, Church Street and Severn Street.